
GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Bwrsariaeth GIG Cymru

Eich canllaw i ddeall y fwrsariaeth

## SUT MAE'N GWEITHIO?

Byddai myfyrwyr nyrsys, gweithwyr proffesiynol gwyddor gofal iechyd, bydwragedd a gweithwyr gofal proffesiynol perthynol i iechyd (AHPs) sy'n astudio yng Nghymru sy'n dymuno gweithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso yn gymwys i wneud cais am y fwrsariaeth. Os ydych yn ymrwymo i weithio yng Nghymru, efallai y byddwch yn derbyn:




- Grant di-ad-daladwy o £1,000
- Ffioedd Dysgu â Thâl (Nid yw'n ad-daladwy os cwblheir y gofyniad i weithio yng Nghymru)
- Bwrsariaeth ar sail prawf modd nad yw'n ad-daladwy
- Benthyciad cynhaliaeth myfyrwyr llawn (Ar gyfer y rhai sy'n astudio rhaglenni israddedig llawn amser)

## BETH YW'R YMRWYMIAD?

Os byddwch yn dewis cael gafael ar gyllid drwy'r cynllun, rydych yn ymrwymo i weithio mewn lleoliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru am gyfnod o ddeunaw mis i ddwy flynedd yn dibynnu ar y cwrs a gomisiynwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) rydych chi'n ei ddewis. Mae ffioedd dysgu yn ad-daladwy os nad ydych yn cwblhau'r ymrwymiad gofynnol i weithio yng Nghymru.

## BETH YW'R BROSES?

1. Penderfynwch ar eich cwrs prifysgol gofal iechyd
2. Derbyn cynnig lle gan eich prifysgol
3. Ymgeisio i gael eich asesu ar gyfer y fwrsariaeth cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich cynnig
4. Derbyn eich dyfarniad bwrsariaeth
5. Gwneud cais am gyllid myfyrwyr os yn gymwys
6. Cwblhau eich cwrs prifysgol yn llwyddiannus
7. Derbyn eich cynnig swydd ar gyfer cyflogaeth addas a dechreuwch eich gyrfa yng Nghymru



## PAM GIG CYMRU?

GIG Cymru yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru — sy'n cyflogi dros 90,000 o bobl. Mae gennym dros 350 o wahanol gyfleoedd gyrfa sy'n cwmpasu amrywiaeth enfawr o rolau clinigol ac anghlinigol.

Mae GIG Cymru yn buddsoddi yn eu staff i'w galluogi i ddatblygu yn eu rôl neu yrfa ddewisol. Rydym yn cynnig llwybrau datblygu strwythuredig ynghyd â chyfleoedd ar gyfer dilyniant a datblygiad personol.



## BETH ALLA I EI DDISGWYL?

Yn gyfnewid am ymrwymiad hyd at ddwy flynedd i weithio yng Nghymru, gallwch dderbyn:

**Grant heb ei ad-dalu**
**£1,000**
Per academic year

**Ffioedd Dysgu***
**£9,000**
Per academic year

**Grant ar sail prawf Modd****
**£2,643 / £2,207**
Grant Cynhaliaeth ar Brawf Modd ar gyfer treuliau byw hyd at £2,643 neu hyd at £2,207 os ydych yn byw mewn cartref rhieni fesul blwyddyn academaidd

*Ddim angen ei ad-dalu os yw'n cael ei gyflogi yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl graddio mewn cyflogaeth addas.
**Gall mwy o fwrsariaeth ar sail prawf modd fod ar gael yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, er enghraifft gofal plant neu anabledd.


| Trefniadau byw | *Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i Fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru £ | **Benthyciad cynhaliaeth cyfradd is ar gael I fyfyrwyr y DU sy'n hanu o'r tu allan i Gymru £ |
|---|---|---|
| Cartref rhieni | 9,315 | 4,475 |
| Mewn mannau eraill | 11,150 | 5,360 |

*Mae'r ffigurau cyfredol yn dangos yr uchafswm benthyciadau cynhaliaeth yn seiliedig ar gyfraddau cyfredol yn 2024/25 os ydynt yn gymwys. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru yn y dyfodol.
**Mae'r benthyciad yn ad-daladwy yn unol â thelerau ac amodau'r benthyciad myfyrwyr.

Byddwch yn ymwybodol, mae derbyn bwrsariaeth yn gallu effeithio'r cymhwysedd i gael budd-daliadau eraill. Mae bwrsariaeth ran-amser hefyd ar gael i fyfyrwyr ar raglenni a gomisiynir yn rhan amser, nad ydynt yn cael eu cynnal yn y pen draw trwy eu cyflogwr

## BLE ALLA I ASTUDIO?

Mae gan Gymru saith prifysgol sy'n cynnig ystod o raddau gofal iechyd. I ddod o hyd i brifysgol sy'n ymwneud â'r cwrs o'ch dewis mae rhestr ar gael isod.




## MWY O WYBODAETH

Mae'n bwysig deall eich ymrwymiad yn llawn cyn cymryd y fwrsariaeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Bwrsariaeth GIG - AaGIC or Fyfyrwyr Newydd - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Gallwch hefyd anfon e-bost atom yn heiw.bursary@wales.nhs.uk